


Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Rhan 1 – Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

# Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth

## Medi 2025

**Awdur(on):**
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

**Paratowyd gan:**
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

This document is available in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .3**

1.1. Ein Hymrwymiad i Gymru Gydnerth . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 3

1.2. Ysgogwyr i Weithredu: Deddfwriaeth a Pholisi . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 3

1.3. Strategaeth Amgylcheddol Integredig . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4

**2. Adolygiad o Gynnydd (2022-2025) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .5**

2.1. Cyflawni Ymrwymiadau 2022 . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 5

2.2. Astudiaethau Achos Gwella Bioamrywiaeth . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7

2.3. Ymgorffori Bioamrywiaeth yn Swyddogaethau Craidd y Gwasanaeth . . . . . . 8

2.4. Adeiladu Ein Sylfaen Dystiolaeth . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

**3. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028) . . . . . . . . . . . . . . . . . . 10**

3.1. Ein Huchelgais ar gyfer Adferiad Natur . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 10

3.2. Camau Gweithredu i Gyflawni Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur 10

**4. Llywodraethiant, Monitro, a’r Rhagolygon i’r Dyfodol . . . . . . . . . . . . . . . 13**

4.1. Mesur Ein Heffaith . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 13

4.2. Atebolrwydd ac Adrodd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14

4.3. Ymrwymiad Parhaus i Gymru sy’n Gyfoethog o ran Natur . . . . . . . . . . . . . 14

# Tablau

Tabl 1: Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022-2025 . . . . . . . . 5

Tabl 2: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025-2028 . 11

# 1. Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol

## 1.1. Ein Hymrwymiad i Gymru Gydnerth

1.1.1. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ("GTAGC", "y Gwasanaeth") wedi ymrwymo'n sylfaenol i ddiogelu cymunedau, treftadaeth, ac amgylchedd naturiol unigryw Gogledd Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan annatod o genhadaeth graidd y Gwasanaeth o "Wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef". Mae cysylltiad annatod rhwng iechyd a gwydnwch ein hecosystemau - o fynyddoedd Eryri i'n harfordiroedd a'n mannau gwyrdd trefol - a diogelwch a lles y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ecosystemau iach yn darparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys aer a dŵr glân, lliniaru llifogydd, a chefnogaeth i fywoliaethau, sydd oll yn elfennau hanfodol o wydnwch cymunedol.

1.1.2. Y ddogfen hon yw Adroddiad Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau statudol y Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2022-2025. Mae'n rhoi manylion tryloyw am y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi adroddiad 2022 ac yn gosod llwybr clir, uchelgeisiol, ac integredig ymlaen trwy gyfrwng Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2025-2028. Mae'n dangos sut mae'r Gwasanaeth yn ymgorffori stiwardiaeth amgylcheddol ym mhob agwedd ar ei weithrediadau, o reoli ystadau'n strategol i ymateb brys rheng flaen.

## 1.2. Ysgogwyr i Weithredu: Deddfwriaeth a Pholisi

1.2.1. Mae gweithredoedd y Gwasanaeth yn cael eu llywio gan fframwaith deddfwriaethol cadarn ac esblygol yng Nghymru, sy'n rhoi cyfrifoldeb clir ar gyrff cyhoeddus i arwain ym maes diogelu'r amgylchedd.

1.2.2. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn pennu'r prif ysgogwr statudol ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae Rhan 1, Adran 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth nid yn unig mewn rheoli tir uniongyrchol ond hefyd yn yr holl bolisïau, cynlluniau, rhaglenni, a gweithgareddau o ddydd i ddydd.

1.2.3. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei hatgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer Cymru gynaliadwy. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod "Cymru Gydnerth": cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol. Ar ben hynny, mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r camau gweithredu o fewn y cynllun hwn yn cael ei lywio gan bum ffordd o weithio'r Ddeddf: sicrhau persbectif tymor hir, canolbwyntio ar atal, integreiddio bioamrywiaeth ag amcanion eraill, cydweithio â phartneriaid, a chynnwys rhanddeiliaid yn y broses.

1.2.4. Mae'r cyd-destun deddfwriaethol a gwleidyddol wedi parhau i aeddfedu ers 2022. Mae'r Senedd wedi datgan argyfwng natur, ac mae adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi dangos digon o flaenoriaeth wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau bioamrywiaeth.

1.2.5. Mewn ymateb, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ym mis Mehefin 2025. Mae'r ddeddfwriaeth nodedig hon yn cryfhau'r fframwaith presennol yn sylweddol. Mae'n sefydlu corff goruchwylio annibynnol newydd, sef Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW), i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

1.2.6. Yn holl bwysig, mae hefyd yn cyflwyno "amcan amgylcheddol" clir i Gymru, sy'n cynnwys "cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth". Mae'r newid hwn o ddyletswydd i "[g]ynnal a gwella" i gyfrifoldeb gweithredol i "atal a gwrthdroi" dirywiad yn codi'r safon ar gyfer cydymffurfiaeth a disgwyliadau'r cyhoedd. Felly, mae'r adroddiad hwn ar gyfer 2025 wedi'i gynllunio nid yn unig i fodloni'r dyletswyddau presennol ond hefyd i fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r agenda genedlaethol fwy uchelgeisiol hon sydd â rhagor o frys ynghlwm â hi.

## 1.3. Strategaeth Amgylcheddol Integredig

1.3.1. Gan gydnabod bod heriau amgylcheddol yn rhyng-gysylltiedig, mae'r Gwasanaeth wedi symud y tu hwnt i drin bioamrywiaeth fel mater ar ei ben ei hun. Mae Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 yn darparu'r fframwaith cyffredinol sy'n integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth ar draws pob agwedd ar berfformiad amgylcheddol. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod effeithiau a chyfleoedd mwyaf arwyddocaol y Gwasanaeth yn ymwneud â'i swyddogaethau craidd: sut mae'n pweru ei adeiladau a'i gerbydau, ac yn rheoli ei adnoddau.

1.3.2. Mae'r Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn felly'n elfen ganolog o'r strategaeth ehangach hon, ac yn cael ei gefnogi gan gyfres o gynlluniau gweithredu pwrpasol sy'n brif fecanweithiau cyflawni ar gyfer cyd-fanteision bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Datgarboneiddio Pŵer
- Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi
- Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd
- Cynllun Lleihau Gwastraff
- Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol

1.3.3. Trwy weithredu'r cynlluniau hyn, mae'r Gwasanaeth nid yn unig yn lleihau ei ôl troed carbon ond hefyd yn mynd i'r afael â phwysau allweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod bioamrywiaeth wedi'i hymgorffori mewn penderfyniadau cyfalaf a gweithredol mawr, gan gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a darparu ymateb mwy effeithiol a chyfannol i'r argyfyngau hinsawdd a natur.



# 2. Adolygiad o Gynnydd (2022-2025)

## 2.1. Cyflawni Ymrwymiadau 2022

2.1.1. Mae’r adran hon yn gofnod tryloyw o’r camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth rhwng Tachwedd 2022 a Thachwedd 2025 i fodloni’r ymrwymiadau a nodwyd yn yr Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth blaenorol. Mae’r tabl isod yn crynhoi’r cynnydd ar bob cam gweithredu:

### Tabl 1: Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022-2025

| Amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru | Camau Gweithredu o Gynllun 2022 | Crynodeb o'r Cynnydd (2022-2025) | Canlyniad / Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| 1. Ymgysylltu a Chefnogi | Datblygu polisi i ddisodli'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy (SDAP). | Mae Strategaeth Amgylcheddol gynhwysfawr 2023-2030 a phum cynllun datgarboneiddio a lleihau gwastraff ategol wedi'u datblygu, bu ymgynghori arnynt, ac maent wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol. | Cyhoeddwyd Strategaeth Amgylcheddol a chynlluniau cysylltiedig. |
| 2. Diogelu Rhywogaethau a Chynefinoedd | Cynnal ardystiad BREEAM wrth ddatblygu adeiladau newydd neu waith adnewyddu mawr, lle bo'n ymarferol i wneud hynny. | Mae egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys diogelu nodweddion ecolegol, yn parhau i lywio pob gwaith cyfalaf. | Mae pob prosiect perthnasol yn cael ei asesu yn erbyn BREEAM neu safonau cynaliadwyedd cyfatebol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Cynyddu Gwydnwch ac Adfer Cynefinoedd | Gweithredu'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth (dechreuodd ym mis Ebrill 2020). | Mae'r contract wedi bod yn gwbl weithredol, gan gyflwyno trefn o dorri'n llai aml mewn safleoedd dynodedig i hyrwyddo cynefinoedd peillwyr. | Cofnodion rheoli contractau; tystiolaeth ffotograffig o newidiadau i gynefinoedd mewn wyth gorsaf dân. |
| 4. Mynd i'r Afael â'r Prif Bethau sy'n Rhoi Pwysau | Cynnal asesiad o'r risg y mae clefyd coed ynn yn ei achosi i goed ynn y Gwasanaeth erbyn diwedd 2023. | Cwblhawyd yr asesiad risg fel y cynlluniwyd. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu dadansoddi ac mae cynllun rheoli yn cael ei weithredu. | Adroddiad asesu risg mewnol a chynllun rheoli. |
| | Dod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir (C6 a C8) i ben. | Mae rhaglen ar gyfer rhoi'r gorau i'w defnyddio'n raddol a chael gwared o'r stoc presennol mewn modd ardystiedig ar y gweill, ac mae'r gwaith o gaffael dewisiadau amgen heb fflworin yn mynd rhagddo. | Cofnodion caffael a chynlluniau gwaredu. |
| | Parhau â gwaith parhaus yn ymwneud â Thanau Gwyllt ac Atal Tanau Bwriadol. | Mae'r arweinydd Tanau Gwyllt a'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol wedi parhau i weithio'n helaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, CNC, a'r Heddlu i leihau tanau gwyllt. | Cofnodion cyfarfodydd partneriaeth; deunyddiau ymgyrchoedd ymgysylltu â'r cyhoedd (e.e., Llantysilio). |
| 5. Gwella Tystiolaeth | Cynnal a diweddaru Rhestr Bioamrywiaeth ystâd GTAGC. | Mae'r rhestr, gan gynnwys log ffotograffig o 2021, yn cael ei chynnal gan yr Adran Rheoli Cyfleusterau ac yn cael ei diweddaru wrth i brosiectau gael eu cwblhau. | Rhestr ddigidol a chofnodion ffotograffig. |
| | Cofnodi pob coeden mewn Rhestr o Goed (gwaith yn dal i fynd rhagddo). | Mae rhestr gynhwysfawr o'r holl goed ar draws yr ystâd 47 safle wedi'i chwblhau, gan gofnodi rhywogaethau, lleoliad, a chyflwr. | Cronfa ddata'r Rhestr o Goed wedi'i chwblhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. Llywodrae-thiant | Cyflwyno adroddiadau a baratowyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r Awdurdod Tân ac Achub i'w cymeradwyo. | Bydd yr adroddiad hwn a'i gynllun gweithredu cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w cymeradwyo'n ffurfiol cyn eu cyhoeddi. | Agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod. |

## 2.2. Astudiaethau Achos Gwella Bioamrywiaeth

2.2.1. Y tu hwnt i'r camau strategol, mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni sawl prosiect diriaethol ar lawr gwlad sy'n gwella bioamrywiaeth leol ac yn ymgysylltu â chymunedau:

2.2.2. **Cynnal a Chadw Tiroedd a Chreu Cynefinoedd:** Yn unol â'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth, lleihawyd y drefn torri glaswellt yn sylweddol mewn wyth gorsaf dân: Abergele, Y Waun, Conwy, Y Fflint, Harlech, Llanfairfechan, Prestatyn a Rhosneigr. Trwy symud o doriadau bob pythefnos i doriad syml yn y gwanwyn a'r hydref, gadawyd i'r ardaloedd hyn dyfu trwy gydol y gwanwyn a'r haf, gan ddarparu cynefin hanfodol a ffynhonnell fwyd i beillwyr a phryfed eraill.




2.2.3. **Gwarchod Rhywogaethau:** Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, fe wnaethom osod clystyrau o flychau nythu i wenoliaid du yng ngorsafoedd tân Bae Colwyn a Llanfairfechan ym mis Rhagfyr 2023. Trwy gynnig lle wedi'i ddiogelu ar gyfer bridio, mae blychau nythu yn cyfrannu at gadwraeth gwenoliaid du, sy'n cadw'n driw i'w safleoedd nythu ac yn dychwelyd i'r un lleoliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gwenoliaid yn nythu mewn cytrefi, felly gall gosod sawl blwch nythu yn agos at ei gilydd annog ffurfio neu ehangu cytrefi, gan eu gwneud yn fwy gwydn.

2.2.4. **Ymgysylltu â'r Gymuned a Phartneriaethau:** Yn ogystal â gwaith partneriaeth parhaus drwy Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru, mae'r Gwasanaeth wedi cefnogi mentrau cydweithredol Cymru gyfan, yn fwyaf arbennig Ymgyrch Dawns Glaw ac ymgyrch gysylltiedig #DoethIDanauGwyllt. Mae'r ymdrechion amlasiantaeth hyn, sy'n cynnwys partneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, heddluoedd, ac awdurdodau lleol, yn sicrhau dull cyson ac effeithlon o weithio, gan gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u teilwra i'r cyhoedd i atal tanau damweiniol a darparu arweiniad technegol i dirfeddianwyr ar reoli tir yn ddiogel.

## 2.3. Ymgorfforі Bioamrywiaeth yn Swyddogaethau Craidd y Gwasanaeth

2.3.1. Cyflawnwyd cyfraniadau mwyaf arwyddocaol y Gwasanaeth i fioamrywiaeth yn y cyfnod adrodd hwn trwy integreiddio ystyriaethau amgylcheddol mewn newidiadau strategol a gweithredol ar raddfa fawr. Erbyn hyn, datgarboneiddio'r Gwasanaeth yw prif ysgogwr cyd-fanteision bioamrywiaeth cadarnhaol, gan arddangos dull aeddfed a chyfannol o reoli'r amgylchedd.

2.3.2. Nod Cynllun Datgarboneiddio Fflyd y Gwasanaeth yw mynd i'r afael ag un o'i ffynonellau mwyaf o ran allyriadau. Mae arbrawf llwyddiannus ag Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) wedi'i gwblhau, ac erbyn hyn mae treial yn cael ei gynnal mewn gorsafoedd, gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n llawn. Yn holl bwysig, mae'r polisi caffael ar gyfer HVO yn nodi bod yn rhaid iddo ddeillio'n gyfan gwbl o fiomas gwastraff, a pheidio â chynnwys unrhyw olew palmwydd, er mwyn sicrhau nad yw'n creu unrhyw "ychwanegedd defnydd tir". Mae'r penderfyniad ymwybodol hwn yn atal galw'r Gwasanaeth am danwydd rhag cyfrannu at drosi cynefinoedd naturiol yn dir amaethyddol ar gyfer cnydau biodanwydd, sy'n un o brif ysgogwyr colli bioamrywiaeth yn fyd-eang.

2.3.3. Mae'r Cynllun Datgarboneiddio Pŵer yn blaenoriaethu gosod systemau Solar Ffotofoltäig (PV) ar doeau gorsafoedd tân ac adeiladau eraill. Nod y Gwasanaeth yw gosod paneli solar ar y mwyafrif o'i safleoedd. Trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ôl troed adeiledig presennol ei 47 eiddo, mae'r Gwasanaeth yn lleihau ei ddibyniaeth ar drydan o'r grid ac yn lliniaru'r pwysau i ddatblygu ffermydd solar ar raddfa fawr ar safleoedd tir glas, a thrwy hynny gadw tir ar gyfer natur ac amaethyddiaeth.

2.3.4. Mae'r Cynllun Lleihau Gwastraff yn gosod targed i ddileu'r defnydd o eitemau plastig untro fel cwpanau a chyllyll a ffyrc o bob safle erbyn 2025. Mae'r weithred hon yn ffordd uniongyrchol o leihau ffynhonnell allweddol o lygredd plastig a all niweidio ecosystemau daearol a dyfrol. Mae'r strategaeth ehangach o symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff—gan flaenoriaethu atal, ailddefnyddio, ac ailgylchu—yn lleihau cymaint â phosibl ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, gan leihau'r colli cynefinoedd cysylltiedig a'r llygredd o safleoedd tirlenwi.

2.3.5. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir i ben. Mae'r sylweddau hyn, a elwir yn aml yn "gemegau am byth", yn hirbarhaus yn yr amgylchedd a gallant fiogronni mewn bywyd gwyllt, gan achosi niwed ecolegol sylweddol. Mae dileu'r ewynnau hyn yn raddol a'u disodli â dewisiadau amgen heb fflworin yn gam ataliol hanfodol i ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau Gogledd Cymru.

2.3.6. Mae gwaith swyddog arweiniol Tanau Gwyllt penodedig y Gwasanaeth a'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yn un o'r prif swyddogaethau diogelu bioamrywiaeth. Trwy ymgysylltu'n rhagweithiol â ffermwyr ar y Cod Llosgi Grug a Glaswellt a phartneriaethau aml-asiantaeth i fynd i'r afael â chynnau tanau'n fwriadol, mae'r Gwasanaeth yn mynd ati'n uniongyrchol i amddiffyn miloedd o hectarau o gynefinoedd anhepgor rhag difrod trychinebus bob blwyddyn. Mae'r gwaith ataliol hwn yn un o'r cyfraniadau mwyaf effeithiol y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i ddiogelu gwydnwch ecosystemau ledled Gogledd Cymru.

## 2.4. Adeiladu Ein Sylfaen Dystiolaeth

2.4.1. Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu targedu ac yn effeithiol, mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau dau brosiect casglu tystiolaeth sylfaenol a amlinellir yng nghynllun 2022.

2.4.2. Rhestr o Goed: Mae rhestr gynhwysfawr o goed ar draws ystâd gyfan GTAGC bellach wedi'i chwblhau. Mae'r rhestr hon yn darparu llinell sylfaen fanwl o nifer, rhywogaeth, lleoliad, a chyflwr cyffredinol stoc coed y Gwasanaeth. Mae'r data hwn yn hanfodol ar gyfer datblygu dull strategol o reoli coed, canfod cyfleoedd ar gyfer gwaith plannu newydd, a chyfrifo gwerth atafaelu carbon seilwaith gwyrdd yr ystâd.

2.4.3. Asesiad o Glefyd Coed Ynn: Fel y bwriadwyd, cwblhawyd asesiad risg o'r holl goed ynn ar yr ystâd erbyn diwedd 2023 i werthuso effaith clefyd coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*). Nododd yr asesiad goed sy'n peri risg bosibl i eiddo neu bobl ac mae wedi bod yn sail i'r gwaith o ddatblygu cynllun rheoli penodol. Bydd y cynllun hwn yn arwain y gwaith o gael gwared ar goed peryglus mewn ffordd ddiogel ac, yn hanfodol, sicrhau eu bod yn cael eu disodli â rhywogaethau brodorol addas i gynnal gorchudd canopi a chysylltedd cynefinoedd.






# 3. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028)

## 3.1. Ein Huchelgais ar gyfer Adferiad Natur

3.1.1. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi ymrwymiadau penodol, mesuradwy, ac amserol y Gwasanaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar y cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod blaenorol ac yn cyflymu'r gweithredu yn unol â brys cynyddol yr argyfwng natur. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch chwe amcan craidd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r uchelgais genedlaethol i ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o dir a môr Cymru ar gyfer natur mewn ffordd effeithiol erbyn 2030 ("30x30"), gan ddangos sut y gall ystâd y Gwasanaeth gyfrannu at y nod cyfunol hwn.

3.1.2. Un o egwyddorion allweddol y cynllun hwn yw integreiddio bioamrywiaeth ag amcanion amgylcheddol ehangach. Bydd llawer o'r camau gweithredu a amlinellir isod nid yn unig yn gwella cynefinoedd ac yn cefnogi rhywogaethau ond hefyd yn cyfrannu at nodau'r Gwasanaeth o ran datgarboneiddio ac addasu i'r hinsawdd.

## 3.2. Camau Gweithredu i Gyflawni Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur

3.2.1. Mae'r tabl canlynol yn manylu ar y camau penodol y bydd y Gwasanaeth yn eu cymryd rhwng 2025 a 2028 i gyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth a chyfrannu at amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

## Tabl 2: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025-2028

| Amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru | Gweithred | Disgrifiad / Rhesymeg | Dangosydd Perfformiad |
|---|---|---|---|
| 1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad | Datblygu a chyflwyno modiwl e-ddysgu gorfodol ar ymwybyddiaeth amgylcheddol i staff uwch. | Ymgorffori dealltwriaeth sylfaenol o ddyletswydd Adran 6 a phwysigrwydd bioamrywiaeth ar draws y gweithlu cyfan, gan feithrin diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol. | 75% o'r staff dynodedig yn cwblhau'r modiwl erbyn mis Mawrth 2027. |
| | Lansio rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad y staff. | Grymuso staff brwdfrydig i arwain ar fentrau lleol, hyrwyddo ymwybyddiaeth, a darparu adborth o'r gwaelod i fyny, gan feithrin mwy o gyfranogiad. | O leiaf un hyrwyddwr wedi'i benodi ym mhob un o'r tair ardal ddaearyddol (Gorllewin, Canol, Dwyrain). |
| 2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd | Gweithredu'r Cynllun Rheoli Clefyd Coed Ynn | Mynd ati mewn ffordd ddiogel i reoli'r risgiau y mae coed sydd â'r clefyd yn eu hachosi, ac ar yr un pryd sicrhau cynnydd net mewn gorchudd canopi trwy raglen blannu strategol i ddisodli'r coed hyn â rhywogaethau amrywiol, brodorol. | Yr holl goed sy'n peri risg uchel wedi'u rheoli erbyn diwedd 2026; 100% o'r coed y cafwyd gwared arnynt wedi'u disodli ar sail 2-am-1 erbyn 2028. |
| | Ffurfioli'r polisi ar gyfer arolygon ecolegol mewn safleoedd sensitif. | Sicrhau bod unrhyw waith ger safleoedd dynodedig neu ardaloedd o werth ecolegol hysbys (e.e., y cynefin madfallod dŵr cribog ger Pencadlys Llanelwy) yn cael ei ragflaenu gan asesiad ecolegol priodol i atal niwed. | Polisi wedi'i integreiddio mewn gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer yr holl waith cyfalaf a chynnal a chadw erbyn Ebrill 2026. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Cynyddu gwydnwch ac adfer cynefinoedd | Lansio rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd". | Trosi cyfran sylweddol o laswelltir amwynder isel ei werth yn gynefinoedd sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac yn atafaelu carbon, gan gyfrannu'n uniongyrchol at nodau'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur a nodau datgarboneiddio. | O leiaf 15% o laswelltir a dorrir ar draws safleoedd addas wedi'i droi'n ddolydd blodau gwyllt neu wedi'i ddefnyddio ar gyfer plannu coed brodorol erbyn mis Mawrth 2028. |
| | Gosod nodweddion bioamrywiaeth newydd ar draws yr ystâd. | Darparu cymorth wedi'i dargedu i rywogaethau penodol trwy greu safleoedd nythu, clwydo, a gaeafgysgu ar draws ystod ddaearyddol eang o eiddo'r Gwasanaeth. | O leiaf 10 nodwedd newydd (ee, blychau adar, blychau ystlumod, gwestai pryfed, pentyrrau coed) wedi'u gosod erbyn mis Mawrth 2028. |
| 4. Mynd i'r afael â'r prif bethau sy'n rhoi pwysau | Cwblhau'r broses o ddileu'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir yn raddol. | Cael gwared ar ffynhonnell sylweddol o lygredd amgylcheddol parhaus o weithrediadau'r Gwasanaeth, gan ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau. | 100% o'r hen stoc ewyn wedi'i ddisodli a'i waredu trwy ffrydiau gwastraff ardystiedig erbyn mis Mawrth 2027. |
| | Gwella gwaith partneriaeth ar atal tanau gwyllt. | Parhau i amddiffyn cynefinoedd ar raddfa fawr rhag difrod tân trwy addysg wedi'i thargedu ac ymgysylltu â thirfeddianwyr a'r cyhoedd. | Presenoldeb rheolaidd gan y Gwasanaeth yng Nghyfarfodydd Grŵp Risg Amgylcheddol Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru o fewn cyfnod yr adroddiad. |
| 5. Gwella tystiolaeth | Cynnal arolwg ar draws yr ystâd ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS). | Adeiladu ar y rhaglen bresennol i reoli Clymog Japan drwy nodi a mapio INNS risg uchel eraill er mwyn creu sylfaen ar gyfer cynllun rheoli cynhwysfawr. | Arolwg wedi'i gwblhau a chynllun rheoli INNS wedi'i gynhyrchu erbyn mis Mawrth 2028. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. Llywodraethiant a chefnogaeth | Mabwysiadu egwyddor "Enillion Net Bioamrywiaeth" (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd. | Symud y tu hwnt i liniaru niwed i sicrhau bod pob datblygiad newydd mawr yn gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell yn fesuradwy nag o'r blaen, gan gyd-fynd â'r arfer gorau. | Gofyniad BNG wedi'i gynnwys yn yr holl ddogfennaeth dendro berthnasol ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n cael eu cychwyn o fis Ebrill 2026 ymlaen. |

# 4. Llywodraethiant, Monitro, a'r Rhagolygon i'r Dyfodol

## 4.1. Mesur Ein Heffaith

4.1.1. Er mwyn sicrhau bod Cynllun Gweithredu 2025-2028 yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac i ddangos atebolrwydd, bydd y Gwasanaeth yn gweithredu fframwaith monitro cadarn. Bydd y fframwaith hwn yn olrhain cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y manylir yn eu cylch yn Nhabl 2, gan symud y pwyslais o gwblhau tasgau i fesur canlyniadau diriaethol ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd y metrigau allweddol yn cynnwys:

- Hectarau o gynefin wedi'u hadfer neu eu creu drwy'r rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd".
- Nifer a math y nodweddion bioamrywiaeth newydd sydd wedi'u gosod.
- Canran y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol gorfodol.
- Nifer y prosiectau cyfalaf lle defnyddiwyd egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth.



4.1.2. Bydd y dull hwn sy'n cael ei arwain gan ddata yn caniatáu i'r Gwasanaeth asesu effeithiolrwydd ei ymyriadau, addasu ei strategaeth lle bo angen, a darparu tystiolaeth glir o'i gyfraniad at adfer natur yng Nghymru. Mae hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r angen, a nodwyd gan Archwilio Cymru, i gyrff cyhoeddus gael mesurau effeithiol i ddeall eu cynnydd tuag at amcanion amgylcheddol.

## 4.2. Atebolrwydd ac Adrodd

4.2.1. Bydd y strwythur llywodraethiant ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn yn sicrhau llinellau clir o ran cyfrifoldeb a goruchwyliaeth. Mae'r gwaith o gyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth o ddydd i ddydd yn cael ei weinyddu trwy Is-adran Cadwraeth Amgylcheddol ac Ynni yr Adran Rheoli Cyfleusterau, ar y cyd â Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd. Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol â chyfrifoldeb am bortffolio'r Amgylchedd sy'n atebol yn gyffredinol.

4.2.2. Bydd y Gwasanaeth yn cyhoeddi ei Adroddiad Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau statudol nesaf cyn diwedd 2028, yn unol â'r cylch adrodd tair blynedd sy'n orfodol dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## 4.3. Ymrwymiad Parhaus i Gymru sy'n Gyfoethog o ran Natur

4.3.1. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod bod ei ddyletswydd i ddiogelu'r amgylchedd yn daith barhaus, yn hytrach na phrosiect tymor byr. Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu parhaus, uchelgeisiol, ac integredig gan bob sector o gymdeithas. Mae'r adroddiad a'r cynllun gweithredu hwn yn gam sylweddol ymlaen yn ymrwymiad y Gwasanaeth, gan ymgorffori bioamrywiaeth wrth graidd ei waith cynllunio strategol a'i weithrediadau dyddiol.